

# Monitro amrywiaeth tystiolaeth

## Peilot 2: canfyddiadau manwl

Rhagfyr 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

**[www.senedd.cymru/Pwyllgorau](http://www.senedd.cymru/Pwyllgorau)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Uned Gydgysylltu**

**Senedd Cymru**

**Bae Caerdydd**

**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[Pwyllgorau@senedd.cymru](mailto:Pwyllgorau@senedd.cymru)**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Monitro amrywiaeth tystiolaeth

## Peilot 2: canfyddiadau manwl

Rhagfyr 2023







## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi canfyddiadau ail brosiect peilot monitro amrywiaeth tystiolaeth y Chweched Senedd.

Mae hyn yn cynnwys:

- Canfyddiadau o'r arolwg dienw gwirfoddol a anfonwyd at bobl a wnaeth, rhwng 26 Medi 2022 a 30 Ebrill 2023, roi tystiolaeth lafar, cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymgynghoriad pwyllgor, neu gymryd rhan mewn gweithgaredd ymgysylltu anffurfiol a gomisiynwyd gan bwyllgor. Anfonwyd yr arolwg at bobl 16 oed neu hŷn yn unig. Ni chafodd ei anfon at Weinidogion na swyddogion Llywodraeth Cymru.
- Canfyddiadau o'r dadansoddiad o ddata a gedwir ar System Rheoli Busnes y Senedd (SRBS) ynghylch tystion a roddodd dystiolaeth lafar rhwng 1 Mai 2022 a 30 Ebrill 2023.

Cafodd y pwyllgorau a ganlyn eu cynnwys o fewn cwmpas yr ail beilot: Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Economi, Masnach a Materion Gwledig; Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; Cyllid; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Llywodraeth Leol a Thai; Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Mae rhagor o wybodaeth am fonitro amrywiaeth tystiolaeth ar gael ar wefan y Senedd: <https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/pwyllgorau/cymryd-rhan-mewn-pwyllgor/pam-mae-r-senedd-yn-gwerthfawrogi-tystiolaeth-amrywiol/>



## Cynnwys

<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>3</b>
<b>1. Dadansoddiad o'r arolygon .....</b>	<b>9</b>
Nodiadau.....	9
Cyfraddau ymateb .....	9
Amser cwblhau'r arolygon .....	19
Iaith cwblhau'r arolygon.....	19
Amllder cyfranogiad blaenorol (yn ôl y sefydliad yr oedd yr unigolyn yn ei gynrychioli) .....	25
Iaith cyfranogiad a nodwyd.....	29
Fformat y cyfranogiad.....	32
Yn rhinwedd pa rôl y cymerodd yr ymatebwr ran.....	36
Sectorau a gynrychiolir gan ymatebwyr sy'n nodi eu bod wedi cymryd rhan mewn gwaith pwyllgor yn rhinwedd rôl broffesiynol neu ar ran sefydliad.....	46
Cynrychiolaeth grwpiau neu gymunedau penodol yn ôl ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn cymryd rhan yn rhinwedd rôl broffesiynol neu ar ran sefydliad.....	57
Lleoliadau y mae sefydliadau neu weithwyr proffesiynol yn gweithio ynddynt.....	61
Bodlonrwydd gyda'r rhybudd .....	67
Bodlonrwydd gyda chyfleoedd i rannu barn.....	71
Bodlonrwydd gydag unrhyw gymorth neu gefnogaeth ymarferol.....	75
Bodlonrwydd gyda'r profiad cyffredinol .....	79

---

Tebygolrwydd o gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor eto .....	83
Sylwadau .....	87
Oedran .....	92
Rhyw .....	97
Hunaniaeth rhywedd.....	103
Cyfeiriadedd rhywiol.....	106
Hunaniaeth genedlaethol.....	111
Grŵp ethnig.....	117
Crefydd .....	125
Statws anabledd .....	133
Math o anabledd .....	139
Beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth a thadolaeth .....	143
Lle rydych yn byw .....	146
Diddordeb a dealltwriaeth wleidyddol .....	155
Cyfrifoldebau gofal.....	163
Prentisiaethau .....	170
Addysg .....	175
Cyflogaeth.....	181
Cefndir difreintiedig.....	190
<b>2. Dadansoddiad o ddata System Rheoli Busnes y Senedd ...</b>	<b>195</b>
Nodiadau.....	195
Diffiniadau.....	195

Yn rhinwedd pa rôl y cymerodd tystion ran .....	196
O ba sector y daw tystion .....	216
Pa mor aml yr oedd tystion unigryw yn bresennol .....	274
Pa mor aml yr oedd sefydliadau unigryw yn bresennol.....	276
<b>Atodiad: testun llawn y sylwadau.....</b>	<b>279</b>



# 1. Dadansoddiad o'r arolygon

## Nodiadau

1. Mae data sy'n ymwneud â llai na deg o ymatebwyr i'r arolwg wedi'u cuddio, a dangosir amrediad data yn lle hynny. Mewn rhai achosion, mae data sy'n ymwneud â deg neu fwy o ymatebwyr wedi'u cuddio lle mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod data sy'n ymwneud â llai na deg o ymatebwyr yn cael eu cuddio.
2. Lle bo'n briodol, dangosir cymariaethau rhwng data'r ail beilot a'r peilot cyntaf. Dylid trin cymariaethau o'r fath yn ofalus, gan fod y cyfraddau ymateb, nifer yr ymatebion, a strwythurau'r arolygon yn wahanol ar gyfer y ddau beilot.<sup>1</sup>

## Cyfraddau ymateb

### Cyfradd ymateb gyffredinol

---

3. At ei gilydd, cafwyd 369 o ymatebion; sef **cyfradd ymateb gyffredinol o 41 y cant** (o gymharu â 18 y cant ar gyfer y peilot cyntaf).

### Cyfradd ymateb ar gyfer nodweddion demograffig

---

4. Yn fras, mae'r arolwg yn cynnwys pedair adran:
  - Cyfranogiad yr ymatebwr mewn gweithgaredd pwyllgor.
  - Os yw'n berthnasol, sefydliad neu broffesiwn yr ymatebwr.
  - Adborth.
  - Nodweddion demograffig yr ymatebwr.
5. Roedd adborth o'r peilot cyntaf yn awgrymu nad oedd rhai ymatebwyr (er enghraifft y rhai a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig ar ran sefydliad) yn

---

<sup>1</sup> Cynhaliwyd y peilot cyntaf rhwng mis Hydref 2021 a mis Ebrill 2022. Roedd yn cynnwys pedwar arolwg, gyda phob un yn gofyn cyfuniad gwahanol o gwestiynau ynghylch amrywiaeth ac i gael adborth. Defnyddiodd gwahanol bwylgorau arolygon gwahanol yn ystod y peilot cyntaf. Roedd yr ail beilot yn cynnwys un arolwg a ddefnyddiwyd gan bob pwyllgor.

---

ystyried bod eu nodweddion demograffig eu hunain yn berthnasol. Ychwanegwyd cwestiwn newydd at yr arolwg ar gyfer yr ail beilot i ofyn i ymatebwyr a oeddent yn fodlon ateb cwestiynau am eu hunain. Cyn y cwestiwn, rhoddwyd gwybodaeth i'r ymatebwyr ynghylch pam yr oedd pwyllgorau am ofyn cwestiynau am nodweddion ymatebwyr. Roedd y wybodaeth hon yn cydnabod na fyddai pawb eisiau darparu'r wybodaeth ac eglurodd y byddai pob un o'r cwestiynau yn ddewisol, ac y byddent hefyd yn cynnwys opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'. Rhoddwyd linc hefyd at wybodaeth am sefydliadau allanol a allai roi cyngor a chymorth mewn perthynas â'r meysydd yr oedd y cwestiynau'n holi yn eu cylch.

Cwestiwn: Ydych chi'n hapus i ateb cwestiynau amdanoch chi'ch hun?

6. Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol.
7. Gallai ymatebwyr ddewis un opsiwn o'r restr:<sup>2</sup>
  - Nac ydw, ewch â mi i ddiwedd yr arolwg
  - Ydw

	Nac ydw, ewch â mi i ddiwedd yr arolwg	Ydw
<b>Cyfanswm</b>	11%	89%

8. Dewisodd 330 o ymatebwyr (89 y cant) 'Ydw'. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 37 y cant ar gyfer nodweddion demograffig.

### Canlyniadau yn ôl pwyllgor

---

Cwestiwn: Pa bwyllgor y buoch yn cymryd rhan yn ei waith?

9. Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol.

---

<sup>2</sup> Yma ac yn y manau cyfatebol yn y ddogfen hon, mae'r holl opsiynau posibl y gallai ymatebwyr fod wedi'u dewis wedi'u rhestru. Efallai na fydd opsiwn (neu opsiynau) na chafodd eu dewis gan unrhyw ymatebwyr yn ymddangos yn y tablau neu'r graffiau sy'n crynhoi'r canfyddiadau.



**10.** Gallai ymatebwyr ddewis un opsiwn o'r rhestr:

- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Cyllid
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
- Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
- Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
- Ddim yn siŵr
- Gwell gennyf beidio â dweud.


**11.** Dewisodd 10 ymateb (3 y cant) 'Ddim yn siŵr'. Ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'.<sup>3</sup>

Pwyllgor <sup>4</sup>	Y gyfradd ymateb
<b>Plant, Pobl Ifanc ac Addysg</b>	35%
<b>Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith</b>	35%

<sup>3</sup> Anfonwyd yr arolwg yn anfwriadol at ddeg o bobl a ymatebodd i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan bwyllgor nad oedd yn rhan o'r peilot. Gan fod yr arolwg yn ddiennw, nid oes modd gwybod a wnaethant gwblhau'r arolwg, ac, os felly, pa bwyllgor y gallent fod wedi'i ddewis. At hynny, anfonwyd un ar ddeg o geisiadau i lenwi arolwg heb eu priodoli i gyfranogiad yng ngwaith pwyllgor penodol. At ddibenion dadansoddi, mae'r ceisiadau hyn i lenwi arolwg wedi'u priodoli i 'Ddim yn siŵr'.

<sup>4</sup> Lle bo'n briodol yma a thrwy gydol y ddogfen mae ymatebion 'Ddim yn siŵr' neu 'Gwell gennyf beidio â dweud', mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch pa bwyllgor, wedi'u hepgor o'r tablau a'r graffiau.


<b>Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol</b>	47%
<b>Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig</b>	46%
<b>Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol</b>	39%
<b>Cyllid</b>	73%
<b>Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>	38%
<b>Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad</b>	61%
<b>Llywodraeth Leol a Thai</b>	45%
<b>Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus</b>	45-50%



**12.** Roedd amrywiaeth sylweddol yn nifer yr ymatebion a gafwyd gan bwyllgorau, yn amrywio o lai na 10 i 68.

<b>Pwyllgor</b>	<b>Canran yr ymatebion cyffredinol</b>
<b>Plant, Pobl Ifanc ac Addysg</b>	18%
<b>Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith</b>	11%
<b>Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol</b>	6%
<b>Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig</b>	12%
<b>Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol</b>	14%
<b>Cyllid</b>	0-5%
<b>Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>	10%
<b>Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad</b>	4%
<b>Llywodraeth Leol a Thai</b>	17%
<b>Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus</b>	0-5%
<b>Ddim yn siŵr</b>	0-5%
<b>Gwell gennyf beidio â dweud</b>	0%

### Canran yr ymatebion a gafwyd yn ôl pob pwyllgor



### Yn ôl y math o weithgaredd

Cwestiwn: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y prif weithgaredd y gwnaethoch gymryd rhan ynddo?

Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio orau, yn eich barn chi, sut y gwnaethoch chi gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor. Os ydych chi'n cymryd rhan yng ngwaith pwyllgor mewn mwy nag un ffordd, efallai y gofynnir i chi gwblhau'r arolwg

hwn fwy nag unwaith. Y nod yw ein helpu i ddeall pwy sy'n cymryd rhan yng ngwaith pwyllgor mewn ffyrdd gwahanol, a beth yw eu profiadau.

**13.** Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol.

**14.** Gallai ymatebwyr ddewis un opsiwn o'r rhestr:

- Rhoi tystiolaeth lafar yn un o gyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor
- Cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig
- Cwrdd â'r pwyllgor fel rhan o ymweliad anffurfiol i ffwrdd o'r Senedd
- Cymryd rhan mewn grŵp ffocws
- Rhoi cyfweiliad manwl
- Llenwi holiadur neu arolwg
- Cymryd rhan mewn bwrdd trafod ar-lein
- Cymryd rhan mewn 'mini public' (er enghraifft panel dinasyddion, grwp cyfeirio, cynulliad dinasyddion)
- Ddim yn siŵr
- Arall (rhowch y manylion)

**15.** Dewisodd llai na 10 o'r ymatebwyr (0-5 y cant) 'Ddim yn siŵr'. Dewisodd llai na 10 o'r ymatebwyr (0-5 y cant) 'Arall'. Yr atebion a roddwyd gan un neu fwy o'r ymatebwyr a ddewisodd 'Arall' oedd:<sup>5</sup>

- Ymateb i'r ymgynghoriad
- Sesiwn bord gron [pwyllgor] yn ymwneud â [mater polisi penodol]
- Grŵp trafod

---

<sup>5</sup> Lle bo'n briodol, yma a thrwy gydol y ddogfen, mae dyfyniadau uniongyrchol o'r arolwg wedi'u golygu er mwyn osgoi dangos manylion personol ymatebwyr. Dangosir y rhannau sydd wedi'u golygu mewn cromfachau sgwâr.

- Roeddwn i'n ymgeisydd a oedd yn cael fy ystyried gan y pwyllgor fel rhan o wrandawriad cyn penodi
- Ymateb i'r ymgynghoriad
- Helpodd [Sefydliad] i drefnu dau grŵp ffocws


**16.** At ddibenion dadansoddi (yma a thrwy'r ddogfen), mae rhai ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u grwpio fel a ganlyn:

- **Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad:** yn cynnwys yr holl ymatebwyr a ddewisodd opsiynau yn ymwneud â gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad.<sup>6</sup>
- **Arall:** yn cynnwys ymatebion a ddewisodd 'Arall' ac a roddodd eu hateb eu hunain.


<b>Gweithgaredd<sup>7</sup></b>	<b>Y gyfradd ymateb</b>
<b>Rhoddais dystiolaeth lafar mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol</b>	49%
<b>Cyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol</b>	31%
<b>Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad</b>	51%

---


<sup>6</sup> 'Cwrdd â'r pwyllgor fel rhan o ymweliad anffurfiol i ffwrdd o'r Senedd'; 'Cymryd rhan mewn grŵp ffocws'; 'Rhoi cyfweiliad manwl'; 'Llenwi holiadur neu arolwg'; 'Cymryd rhan mewn bwrdd trafod ar-lein'; 'Cymryd rhan mewn 'mini public' (er enghraifft panel dinasyddion, grwp cyfeirio, cynulliad dinasyddion)'.  
<sup>7</sup> Lle bo'n briodol yma a thrwy gydol y ddogfen mae ymatebion 'Ddim yn siŵr' neu 'Arall', mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch y math o weithgaredd, wedi'u hepgor o'r tablau a'r graffiau.



Gweithgaredd	Canran yr ymatebion cyffredinol
<b>Rhoddais dystiolaeth lafar mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol</b>	53%
<b>Cyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol</b>	30%
<b>Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad</b>	15%
<b>Ddim yn siŵr</b>	0-5%
<b>Arall</b>	0-5%



### Cymhariaeth â'r peilot cyntaf






## Amser cwblhau'r arolygon

Amser cwblhau	Amser (mm:ee)
Cymedrig	08:17
Canolrifol	04:45

## Iaith cwblhau'r arolygon

17. Cwblhawyd 12 o ymatebion i'r arolygon (3 y cant) yn Gymraeg, a 357 (97 y cant) yn Saesneg.

Pwyllgor	Cymraeg	Saesneg
Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	0-5%	95-100%
Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith	5-10%	90-95%
Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol	20-25%	75-80%
Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	0%	100%
Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol	0-5%	95-100%
Cyllid	0%	100%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	0%	100%
Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad	0%	100%
Llywodraeth Leol a Thai	0-5%	95-100%
Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus	0%	100%
Ddim yn siŵr	0%	100%
Gwell gennyf beidio â dweud	0%	0%



Amllder cyfranogiad blaenorol (gan yr ymatebwr ei hun)

Cwestiwn: A ydych wedi cymryd rhan yng ngwaith unrhyw o bwyllgorau'r Senedd o'r blaen?

**18.** Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol.


**19.** Gallai ymatebwyr ddewis un opsiwn o'r rhestr:

- Ydw, yn rheolaidd
- Ydw, unwaith neu o bryd i'w gilydd
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- Gwell gennyf beidio â dweud

**20.** Ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'.

### Canlyniadau Cyffredinol


	Ydw, yn rheolaidd	Ydw, unwaith neu o bryd i'w gilydd	Nac ydw	Ddim yn siŵr
<b>Cyfanswm</b>	20-25%	39%	36%	0-5%



### Canlyniadau yn ôl pwyllgor


	Ydw, yn rheolaidd	Ydw, unwaith neu o bryd i'w gilydd	Nac ydw	Ddim yn siŵr
<b>Plant, Pobl Ifanc ac Addysg</b>	32%	29%	35%	0-5%
<b>Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith</b>	15-20%	53%	33%	0-5%

<b>Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol</b>	20-25%	45%	30-35%	0%
<b>Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig</b>	30%	41%	28%	0%
<b>Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol</b>	10-15%	36%	47%	5-10%
<b>Cyllid</b>	25-30%	70-75%	0%	0%
<b>Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>	15-20%	41%	41%	0%
<b>Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad</b>	25-30%	60-65%	0-5%	0%
<b>Llywodraeth Leol a Thai</b>	28%	28%	43%	0-5%
<b>Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus</b>	0%	40-45 y cant	55-60%	0%
<b>Ddim yn siŵr</b>	10-15%	20-25%	50-55%	20-25%




## Yn ôl y math o weithgaredd

	Ydw, yn rheolaidd	Ydw, unwaith neu o bryd i'w gilydd	Nac ydw	Ddim yn siŵr
<b>Rhoddais dystiolaeth lafar mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol</b>	21%	45%	34%	0-5%
<b>Cyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol</b>	36%	34%	27%	0-5%
<b>Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad</b>	0-5%	28%	59%	5-10%
<b>Ddim yn siŵr</b>	0%	30-35%	65-70%	0%
<b>Arall</b>	10-15%	25-30%	40-45%	10-15%



## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf



## Amllder cyfranogiad blaenorol (yn ôl y sefydliad yr oedd yr unigolyn yn ei gynrychioli)

Cwestiwn: Hyd eithaf eich gwybodaeth, a yw eich sefydliad wedi cymryd rhan yng ngwaith unrhyw o bwyllgorau'r Senedd o'r blaen?

**21.** Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol, ond gofynnwyd y cwestiwn i ddim ond y 274 o ymatebwyr a oedd eisoes wedi nodi eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd pwyllgor ar ran sefydliad.

**22.** Gallai ymatebwyr ddewis un opsiwn o'r rhestr:


- Ydw, yn rheolaidd
- Ydw, unwaith neu o bryd i'w gilydd
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- Gwell gennyf beidio â dweud

**23.** Ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'.

### Canlyniadau Cyffredinol

	Ydw, yn rheolaidd	Ydw, unwaith neu o bryd i'w gilydd	Nac ydw	Ddim yn siŵr
<b>Cyfanswm</b>	54%	27%	10%	9%

Hyd eithaf eich gwybodaeth, a yw eich sefydliad wedi cymryd rhan yng ngwaith unrhyw rai o bwllgorau'r Senedd o'r blaen?




### Canlyniadau yn ôl pwyllgor

	Ydw, yn rheolaidd	Ydw, unwaith neu o bryd i'w gilydd	Nac ydw	Ddim yn siŵr
<b>Plant, Pobl Ifanc ac Addysg</b>	68%	24%	0-5%	0-5%
<b>Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith</b>	41%	41%	0-5%	15-20%
<b>Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol</b>	50-55%	20-25%	5-10%	20-25%
<b>Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig</b>	59%	31%	5-10%	0-5%
<b>Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol</b>	43%	40%	5-10%	10-15%
<b>Cyllid</b>	100%	0%	0%	0%




<b>Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>	57%	20-25%	10-15%	5-10%
<b>Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad</b>	40-45%	50-55%	0%	10-15%
<b>Llywodraeth Leol a Thai</b>	49%	15-20%	24%	10-15%
<b>Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus</b>	20-25%	40%	40-45%	0%
<b>Ddim yn siŵr</b>	30-35%	0%	0%	65-70%




### Yn ôl y math o weithgaredd

	Ydw, yn rheolaidd	Ydw, unwaith neu o bryd i'w gilydd	Nac ydw	Ddim yn siŵr
<b>Rhoddais dystiolaeth lafar mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol</b>	51%	30%	10%	9%
<b>Cyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol</b>	63%	21%	5-10%	5-10%

<b>Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad</b>	42%	25-30%	15-20%	10-15%
---	-----	--------	--------	--------



## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf



## Iaith cyfranogiad a nodwyd

Cwestiwn: Pa iaith ddefnyddioch chi?

Os ydych chi wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig mewn un iaith yn unig, ond eich bod yn mynd i anfon cyfieithiad Cymraeg neu Saesneg maes o law, dewiswch 'Cymraeg a Saesneg'.

**24.** Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol.

**25.** Gallai ymatebwyr ddewis un opsiwn o'r rhestr:

- Cymro/Cymraes
- Sais/Saesnes
- Cymraeg a Saesneg
- Gwell gennyf beidio â dweud

- Arall (rhowch y manylion)


**26.** Ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'.

**27.** Yr atebion a roddwyd gan un neu fwy o'r ymatebwyr a ddewisodd 'Arall' oedd:

- Cyfieithiad Cymraeg i ddilyn
- Amherthnasol


### Canlyniadau Cyffredinol

	Cymraeg	Saesneg	Cymraeg a Saesneg	Arall
<b>Cyfanswm</b>	0-5%	90%	8%	0-5%




## Yn ôl y math o weithgaredd

	Cymraeg	Saesneg	Cymraeg a Saesneg
<b>Rhoddais dystiolaeth lafar mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol</b>	0-5%	92%	6%
<b>Cyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol</b>	0-5%	83%	15%
<b>Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad</b>	0%	94%	0-5%



## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf



## Fformat y cyfranogiad

Cwestiwn: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut y gwnaethoch gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor?

**28.** Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol. Ni holwyd ymatebwyr a oedd eisoes wedi nodi eu bod wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.


**29.** Gallai ymatebwyr ddewis un opsiwn o'r rhestr:

- Wyneb yn wyneb, er enghraifft drwy fynd i gyfarfod neu ddigwyddiad, neu gael ymweliad gan y pwyllgor neu ei Aelodau.
- O bell, er enghraifft drwy fideo gynadledda, dros y ffôn, neu drwy blatfform ar-lein.
- Gwell gennyf beidio â dweud

**30.** Ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'.

## Canlyniadau yn ôl pwyllgor


	<b>Wyneb yn wyneb, er enghraifft drwy fynd i gyfarfod neu ddigwyddiad, neu gael ymweliad gan y pwyllgor neu ei Aelodau.</b>	<b>O bell, er enghraifft drwy fideogynadledda, dros y ffôn, neu drwy blatfform ar-lein.</b>
<b>Plant, Pobl Ifanc ac Addysg</b>	66%	34%
<b>Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith</b>	56%	44%
<b>Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol</b>	40-45%	55-60%
<b>Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig</b>	74%	26%
<b>Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol</b>	58%	42%
<b>Cyllid</b>	70-75%	25-30%
<b>Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>	50%	50%
<b>Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad</b>	85-90%	10-15%
<b>Llywodraeth Leol a Thai</b>	55%	45%
<b>Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus</b>	30-35%	65-70%
<b>Ddim yn siŵr</b>	40-45%	55-60%






## Yn ôl y math o weithgaredd

Pwyllgor	Wyneb yn wyneb, er enghraifft drwy fynd i gyfarfod neu ddigwyddiad, neu gael ymweliad gan y pwyllgor neu ei Aelodau.	O bell, er enghraifft drwy fideo gynadledda, dros y ffôn, neu drwy blatfform ar-lein.
Rhoddais dystiolaeth lafar mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol	64%	36%
Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad	48%	52%
Ddim yn siŵr	30-35%	65-70%
Arall	25-30%	70-75%



## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf




## Yn rhinwedd pa rôl y cymerodd yr ymatebwr ran

Cwestiwn: Ar ran pwy y gwnaethoch chi gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor?

31. Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol.
32. Gallai ymatebwyr ddewis un opsiwn o'r rhestr:
  - Ar fy rhan i fel unigolyn
  - Ar fy rhan i mewn rôl broffesiynol
  - Ar ran sefydliad
  - Gwell gennyf beidio â dweud
33. Ni ddewisodd unrhyw ymatebwr yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'.

## Canlyniadau Cyffredinol


	Ar fy rhan i fel unigolyn	Ar fy rhan i mewn rôl broffesiynol	Ar ran sefydliad
<b>Cyfanswm</b>	7%	19%	74%



## Canlyniadau yn ôl pwyllgor


	Ar fy rhan i fel unigolyn	Ar fy rhan i mewn rôl broffesiynol	Ar ran sefydliad
<b>Plant, Pobl Ifanc ac Addysg</b>	0-5%	24%	74%
<b>Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith</b>	10-15%	20-25%	68%
<b>Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol</b>	0-5%	30-35%	64%

<b>Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig</b>	0%	15-20%	85%
<b>Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol</b>	5-10%	10-15%	79%
<b>Cyllid</b>	0%	5-10%	91%
<b>Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>	15-20%	20-25%	62%
<b>Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad</b>	0%	25-30%	71%
<b>Llywodraeth Leol a Thai</b>	0-5%	10-15%	84%
<b>Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus</b>	10-15%	10-15%	70-75%
<b>Ddim yn siŵr</b>	40-45%	30-35%	30-35%



**Yn ôl y math o weithgaredd**

	<b>Ar fy rhan i fel unigolyn</b>	<b>Ar fy rhan i mewn rôl broffesiynol</b>	<b>Ar ran sefydliad</b>
<b>Rhoddais dystiolaeth lafar mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol</b>	0-5%	21%	77%
<b>Cyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol</b>	0-5%	20%	78%
<b>Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad</b>	30%	10-15%	57%



## Cymharu â data System Rheoli Busnes y Senedd

---

**34.** Casglwyd data System Rheoli Busnes y Senedd<sup>8</sup> rhwng mis Mai 2022 a mis Ebrill 2023, casglwyd data arolygon rhwng mis Medi 2022 a mis Ebrill 2023. Gan fod data System Rheoli Busnes y Senedd yn ymwneud â thystion tystiolaeth lafar yn unig, mae data'r arolwg wedi'i hidlo i gynnwys dim ond ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi rhoi tystiolaeth lafar ffurfiol. At hynny, mae data System Rheoli Busnes y Senedd yn ymwneud â chyfanswm nifer y seddi tystion (sef lle ar banel sy'n rhoi tystiolaeth lafar, h.y. os bydd pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan banel o dri thyst, mae hynny'n cyfateb i dair o seddi tystion). Gan nad yw'r data arolygon yn cynnwys tystion Llywodraeth Cymru, maent hefyd wedi'u heithrio o ddata System Rheoli Busnes y Senedd.

---

<sup>8</sup> Gweler adran dadansoddi data System Rheoli Busnes y Senedd y ddogfen hon i gael rhagor o wybodaeth.

---


<b>Pwyllgor<sup>9</sup></b>		<b>Ar fy rhan i fel unigolyn</b>	<b>Ar fy rhan i mewn rôl broffesiynol</b>	<b>Ar ran sefydliad</b>
<b>Pob pwyllgor</b>	Arolwg	0-5%	21%	77%
	SBMS	1%	4%	95%
<b>Plant, Pobl Ifanc ac Addysg</b>	Arolwg	0-5%	20-25%	76%
	SBMS	1%	4%	95%
<b>Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith</b>	Arolwg	0%	20-25%	76%
	SBMS	0%	6%	94%
<b>Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol</b>	Arolwg	5-10%	40-45%	50-55%
	SBMS	0%	1%	99%
<b>Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig</b>	Arolwg	0%	10-15%	86%
	SBMS	0%	6%	94%
<b>Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol</b>	Arolwg	10-15%	15-20%	75%
	SBMS	1%	5%	94%
<b>Cyllid</b>	Arolwg	0%	0%	100%
	SBMS	2%	0%	98%

<sup>9</sup> At ddibenion cymharu, yn y tabl hwn mae data arolwg ond yn cynnwys ymatebion a adroddwyd roi tystiolaeth ffurfiol ar lafar, ac nid yw data SBMS yn eithrio seddi a feddiannwyd gan dystion Llywodraeth Cymru.




<b>Pwyllgor<sup>9</sup></b>		<b>Ar fy rhan i fel unigolyn</b>	<b>Ar fy rhan i mewn rôl broffesiynol</b>	<b>Ar ran sefydliad</b>
<b>Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>	Arolwg	0%	25-30%	72%
	SBMS	0%	8%	92%
<b>Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad</b>	Arolwg	0%	10-15%	85-90%
	SBMS	0%	0%	100%
<b>Llywodraeth Leol a Thai</b>	Arolwg	0-5%	15-20%	82%
	SBMS	1%	4%	95%
<b>Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus</b>	Arolwg	0%	20-25%	80-85%
	SBMS	0%	9%	91%

Cymhariaeth o gyfran y tystion a roddodd dystiolaeth lafar y nodwyd drwy'r arolwg (heb gynnwys 'gwell gennyf peidio â dweud')/drwy System Rheoli Busnes y Senedd (SBMS) eu bod wedi rhoi tystiolaeth ym mhob rôl



## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf



## **Sectorau a gynrychiolir gan ymatebwyr sy'n nodi eu bod wedi cymryd rhan mewn gwaith pwyllgor yn rhinwedd rôl broffesiynol neu ar ran sefydliad**

Cwestiwn: Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'ch proffesiwn neu brif weithgaredd y sefydliad y gwnaethoch gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor ar ei ran?

**35.** Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol, ond gofynnwyd y cwestiwn i ddim ond y 345 o ymatebwyr a oedd eisoes wedi nodi eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd pwyllgor ar ran sefydliad neu yn rhinwedd rôl broffesiynol.

**36.** Gallai ymatebwyr ddewis un opsiwn o'r rhestr:


- Gweinidog neu swyddog Llywodraeth Cymru
- Gweinidog neu swyddog o unrhyw lywodraeth genedlaethol neu ddatganoledig arall
- Senedd Cymru, gan gynnwys Aelodau, staff y Comisiwn a staff cymorth yr Aelodau
- Aelod neu swyddog o unrhyw senedd genedlaethol neu ddatganoledig arall
- Sector cyhoeddus
- Sector preifat
- Y trydydd sector neu'r sector gwirfoddol
- Corff proffesiynol neu undeb llafur
- Corff diwydiant neu reoleiddiwr
- Sefydliad cyfryngau neu newyddiadurwr
- Academydd neu ymchwil
- Materion cyhoeddus

- Grŵp ymgyrchu neu gymunedol
- Sefydliad ffydd
- Cynrychiolydd grŵp ieuenctid, disgyblion ysgol neu fyfyrwr, neu Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru
- Unigolyn (Saesneg yn unig)
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (rhowch y manylion)

**37.** Ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'. Yr atebion a roddwyd gan un neu fwy o'r ymatebwyr a ddewisodd 'Arall' oedd:

- Sector Academaidd a'r Trydydd Sector
- Corff cyngori
- Aelod o staff mewn coleg [Aelod o staff mewn prifysgol]
- Corff hyd braich
- [enw'r sefydliad penodol]
- Addysg bellach
- Preifat fel perchennog bwyty, cyhoeddus fel gweithiwr yn [enw'r brifysgol]
- Sefydliad ariannu dan berchnogaeth gyhoeddus
- Undeb llafur
- Corff a noddir
- Gwasanaethau menywod
- [deiliad swydd benodol]

## Canlyniadau Cyffredinol




## Yn ôl gweithgaredd


	<b>Rhoddais dystiolaeth lafar mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol</b>	<b>Cyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol</b>	<b>Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad</b>
<b>Gweinidog neu swyddog Llywodraeth Cymru</b>	0-5%	0%	0%
<b>Gweinidog neu swyddog o unrhyw lywodraeth genedlaethol neu ddatganoledig arall</b>	0-5%	0-5%	0%
<b>Senedd Cymru, gan gynnwys Aelodau, staff y Comisiwn a staff cymorth yr Aelodau</b>	0-5%	0%	5-10%
<b>Sector cyhoeddus</b>	29%	21%	15-20%
<b>Sector preifat</b>	0-5%	0-5%	0-5%
<b>Y trydydd sector neu'r sector gwirfoddol</b>	26%	34%	34%
<b>Corff proffesiynol neu undeb llafur</b>	15%	13%	10-15%
<b>Corff diwydiant neu reoleiddiwr</b>	5%	5-10%	5-10%
<b>Sefydliad cyfryngau neu newyddiadurwr</b>	0-5%	0%	0%
<b>Academydd neu ymchwil</b>	9%	14%	5-10%
<b>Materion cyhoeddus</b>	0%	0-5%	0%
<b>Grŵp ymgyrchu neu gymunedol</b>	5%	0-5%	5-10%
<b>Sefydliad ffydd</b>	0%	0-5%	0%
<b>Cynrychiolydd grŵp ieuenctid, disgyblion ysgol neu fyfyrwyr, neu</b>	0%	0%	5-10%

<b>Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru</b>			
<b>Unigolyn</b>	0%	0-5%	0%
<b>Arall</b>	5%	0-5%	0-5%





## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf



## Cymharu â data System Rheoli Busnes y Senedd

**38.** Casglwyd data System Rheoli Busnes y Senedd rhwng mis Mai 2022 a mis Ebrill 2023, casglwyd data arolygon rhwng mis Medi 2022 a mis Ebrill 2023. Gan fod data System Rheoli Busnes y Senedd yn ymwneud â thystion tystiolaeth lafar yn unig, mae data'r arolwg wedi'i hidlo i gynnwys dim ond ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi rhoi tystiolaeth lafar ffurfiol. At hynny, mae data System Rheoli Busnes y Senedd yn ymwneud â chyfanswm nifer y seddi tystion (sef lle ar banel sy'n rhoi tystiolaeth lafar, h.y. os bydd pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan banel o dri thyst, mae hynny'n cyfateb i dair o seddi tystion). Gan nad yw'r data arolygon yn cynnwys tystion Llywodraeth Cymru, maent hefyd wedi'u heithrio o ddata System Rheoli Busnes y Senedd.


	Ymatebion i arolygon <sup>10</sup>	Data SBMS <sup>11</sup>
<b>Gweinidog neu swyddog o unrhyw lywodraeth genedlaethol neu ddatganoledig arall</b>	0-5%	2%
<b>Senedd Cymru, gan gynnwys Aelodau, staff y Comisiwn a staff cymorth yr Aelodau</b>	0-5%	4%
<b>Aelod neu swyddog o unrhyw senedd genedlaethol neu ddatganoledig arall</b>	0%	0.4%
<b>Sector cyhoeddus</b>	29%	35%
<b>Sector preifat</b>	0-5%	5%
<b>Y trydydd sector neu'r sector gwirfoddol</b>	26%	19%
<b>Corff proffesiynol neu undeb llafur</b>	15%	12%
<b>Corff diwydiant neu reoleiddiwr</b>	5%	6%

<sup>10</sup> At ddibenion cymharu, yn y tabl hwn o ddata arolygon, dim ond ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi rhoi tystiolaeth lafar ffurfiol sydd wedi'u cynnwys.

<sup>11</sup> At ddibenion cymharu, yn y tabl hwn nid yw data System Rheoli Busnes y Senedd yn cynnwys seddi tystion sydd wedi'u llenwi gan dystion Llywodraeth Cymru.

<b>Sefydliad cyfryngau neu newyddiadurwr</b>	0-5%	1%
<b>Academydd neu ymchwil</b>	9%	8%
<b>Materion cyhoeddus</b>	0%	1%
<b>Grŵp ymgyrchu neu gymunedol</b>	5%	4%
<b>Sefydliad ffydd</b>	0%	0%
<b>Cynrychiolydd grŵp ieuenctid, disgyblion ysgol neu fyfyrwyr, neu Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru</b>	0%	0%
<b>Unigolyn</b>	0%	2%
<b>Arall</b>	5%	0%

Cymhariaeth o gyfran y sectorau a gynrychiolir gan dystion a roddodd dystiolaeth lafar a nodwyd naill ai drwy System Rheoli Busnes y Senedd (SBMS) neu drwy nodi yn eu hymatebion i'r arolwg eu bod wedi rhoi tystiolaeth lafar yn rhinwedd eu rôl broffesiynol




## Academydd neu ymchwil

**39.** Nododd 37 o ymatebwyr mai academydd neu ymchwil oedd eu prif weithgaredd. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r 37 o ymatebion hyn yn ôl pa mor aml y gwnaethant nodi eu bod wedi cymryd rhan yn flaenorol yng ngwaith unrhyw un o bwyllgorau'r Senedd.

	Ydw, yn rheolaidd	Ydw, unwaith neu o bryd i'w gilydd	Nac ydw	Ddim yn siŵr
<b>Rhoddais dystiolaeth lafar mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol</b>	5-10%	50-55%	40-45%	0%
<b>Cyflwynais dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol</b>	40-45%	5-10%	50-55%	0%
<b>Gweithgaredd ymgysylltu neu ymweliad</b>	0%	30-35%	65-70%	0%
<b>Pob math o weithgaredd</b>	15-20%	32%	49%	0%

Sylwer: gan fod y niferoedd dan sylw mor fach, nid yw'r tabl yn dangos ffigurau ar wahân ar gyfer 'ddim yn siŵr' ac 'arall', er bod y mathau hyn o weithgaredd wedi'u cynnwys yn y rhes 'pob math o weithgaredd'.



## Cynrychiolaeth grwpiau neu gymunedau penodol yn ôl ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn cymryd rhan yn rhinwedd rôl broffesiynol neu ar ran sefydliad

Cwestiwn: Meddyliwch am eich proffesiwn neu'r sefydliad y gwnaethoch gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor ar ei ran, a dywedwch wrthym a yw cynrychioli buddiannau pobl, grwpiau neu gymunedau ar sail unrhyw o'r nodweddion canlynol yn ffurfio rhan graidd o'ch gwaith?

**40.** Roedd hwn yn gwestiwn dewisol, ond gofynnwyd y cwestiwn i ddim ond y 345 o ymatebwyr a oedd eisoes wedi nodi eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd pwyllgor ar ran sefydliad neu yn rhinwedd rôl broffesiynol. O'r rhain, dewisodd llai na 10 (0-5 y cant) beidio ag ateb y cwestiwn.

**41.** Gallai ymatebwyr ddewis cymaint o opsiynau ag y dymument o restr:

- Oedran
- Rhyw
- Hunaniaeth rhywedd


- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hunaniaeth genedlaethol
- Grŵp ethnig
- Anabledd
- Crefydd
- Cyfrifoldebau gofal
- Cefndir neu statws economaidd-gymdeithasol
- Iaith
- Dim o'r uchod
- Gwell gennyf beidio â dweud

### Canlyniadau Cyffredinol

<b>Canran yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn a ddewisodd bob opsiwn</b>	
<b>Oedran</b>	37%
<b>Rhyw</b>	29%
<b>Hunaniaeth rhywedd</b>	24%
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	20%
<b>Hunaniaeth genedlaethol</b>	19%
<b>Grŵp ethnig</b>	28%
<b>Anabledd</b>	31%
<b>Crefydd</b>	16%
<b>Cyfrifoldebau gofal</b>	26%
<b>Cefndir neu statws economaidd-gymdeithasol</b>	41%
<b>Iaith</b>	19%
<b>Dim o'r uchod</b>	35%




**Gwell gennyf beidio â dweud** 7%




Nifer yr opsiynau a ddewiswyd	Canran yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn a ddewisodd bob un o ran nifer yr opsiynau
<b>0</b>	10%
<b>1</b>	58%
<b>2</b>	7%
<b>3</b>	5%
<b>4</b>	0-5%
<b>5</b>	0-5%
<b>6</b>	0-5%
<b>7</b>	4%
<b>8</b>	0-5%
<b>9</b>	3%
<b>10</b>	3%
<b>11</b>	10%

<b>12</b>	0%
<b>13</b>	0%



## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf



## Lleoliadau y mae sefydliadau neu weithwyr proffesiynol yn gweithio ynddynt

Cwestiwn: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau yr ardal neu ardaloedd rydych chi neu eich sefydliad yn gweithio ynddynt?

Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

Os ydych chi neu'ch sefydliad yn cyflawni eich gwaith ar sail Cymru gyfan, dewiswch bob un o bum rhanbarth Cymru. Os ydych yn gweithio ar sail y DU, dewiswch bob un o bum rhanbarth Cymru a gwledydd eraill y DU.

**42.** Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol, ond gofynnwyd y cwestiwn i ddim ond y 345 o ymatebwyr a oedd eisoes wedi nodi eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd pwyllgor ar ran sefydliad neu yn rhinwedd rôl broffesiynol.

**43.** Gallai ymatebwyr ddewis cymaint o opsiynau ag y dymument o restr:

- Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Brycheiniog a Sir Faesyfed, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Ceredigion, Dwyfor Meirionydd, Llanelli, Sir Drefaldwyn a Phreseli Sir Benfro.
- Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Aberconwy, Alun a Glannau Dyfrdwy, Arfon, De Clwyd, Gorllewin Clwyd, Delyn, Dyffryn Clwyd, Wrecsam ac Ynys Môn.
- Canol De Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Canol Caerdydd, Gogledd Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth, Gorllewin Caerdydd, Cwm Cynon, Pontypridd, Rhondda a Bro Morgannwg.
- Dwyrain De Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Blaenau Gwent, Caerffili, Islwyn, Merthyr Tudful a Rhymni, Mynwy, Dwyrain Casnewydd, Gorllewin Casnewydd a Thorfaen.
- Gorllewin De Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Aberafan, Pen-y-bont ar Ogwr, Gŵyr, Castell-nedd, Ogwr, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe.
- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Y tu allan i'r DU
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (rhowch y manylion)


**44.** Ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'. Dewisodd llai na 10 o'r ymatebwyr (0-5 y cant) 'Arall' yn lle dewis un neu fwy o'r opsiynau a roddwyd, neu yn ogystal â hynny. Yr atebion a roddwyd gan un neu fwy o'r ymatebwyr a ddewisodd 'Arall' oedd:

- Cymru gyfan
  - Cymru gyfan a Lloegr
-


- Y DU
- Y DU gyfan
- Y Deyrnas Unedig
- Prifysgol
- Ledled Cymru

## Canlyniadau Cyffredinol


	Canran yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn a ddewisodd bob opsiwn
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Brycheiniog a Sir Faesyfed, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Ceredigion, Dwyrfor Meirionydd, Llanelli, Sir Drefaldwyn a Phreseli Sir Benfro.</b>	72%
<b>Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Aberconwy, Alun a Glannau Dyfrdwy, Arfon, De Clwyd, Gorllewin Clwyd, Delyn, Dyffryn Clwyd, Wrecsam ac Ynys Môn.</b>	74%
<b>Canol De Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Canol Caerdydd, Gogledd Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth, Gorllewin Caerdydd, Cwm Cynon, Pontypridd, Rhondda a Bro Morgannwg.</b>	79%
<b>Dwyrain De Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Blaenau Gwent, Caerffili, Islwyn, Merthyr Tudful a Rhymni, Mynwy, Dwyrain Casnewydd, Gorllewin Casnewydd a Thorfaen.</b>	76%
<b>Gorllewin De Cymru. Mae hyn yn cynnwys: Aberafan, Pen-y-bont ar Ogwr, Gŵyr, Castell-nedd, Ogwr, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe.</b>	75%
<b>Lloegr</b>	28%
<b>Gogledd Iwerddon</b>	13%
<b>Yr Alban</b>	17%
<b>Y tu allan i'r DU</b>	6%
<b>Gwell gennyf beidio â dweud</b>	0%
<b>Arall</b>	0-5%



Nifer yr opsiynau a ddewiswyd	Canran yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn a ddewisodd bob un o ran nifer yr opsiynau
0	0%
1	24%
2	3%
3	3%
4	0-5%
5	45%
6	7%
7	6%
8	8%
9	4%
10	0%
11	0%



## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf






## Bodlonrwydd gyda'r rhybudd


Cwestiwn: Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi â: Maint o rybudd a gawsoch ynglŷn â'r cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor?

- 45. Roedd hwn yn gwestiwn dewisol.
- 46. Gallai ymatebwyr raddio eu bodlonrwydd o 1 (anfodlon iawn) i 5 (bodlon iawn).
- 47. Dewisodd llai na 10 o'r ymatebwyr (0-5 y cant) beidio ag ateb y cwestiwn.
- 48. Y sgôr gymedrig gyffredinol oedd 4.4. Y sgôr ganolrifol gyffredinol oedd 5.


### Canlyniadau Cyffredinol





## Yn ôl pwyllgor (cymedr)



## Yn ôl y math o weithgaredd (cymedr)



## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf




## Bodlonrwydd gyda chyfleoedd i rannu barn


Cwestiwn: Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi ar y cyfleoedd a gawsoch i rannu eich safbwyntiau?

- 49. Roedd hwn yn gwestiwn dewisol.
- 50. Gallai ymatebwyr raddio eu bodlonrwydd o 1 (anfodlon iawn) i 5 (bodlon iawn).
- 51. Dewisodd llai na 10 o'r ymatebwyr (0-5 y cant) beidio ag ateb y cwestiwn.
- 52. Y sgôr gymedrig gyffredinol oedd 4.6. Y sgôr ganolrifol gyffredinol oedd 5.


### Canlyniadau Cyffredinol





## Yn ôl pwyllgor (cymedr)



## Yn ôl y math o weithgaredd (cymedr)



### Cymhariaeth â'r peilot cyntaf






## Bodlonrwydd gydag unrhyw gymorth neu gefnogaeth ymarferol


Cwestiwn: Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi ar unrhyw gymorth neu gefnogaeth ymarferol a gawsoch gan staff y pwyllgor?

- 53. Roedd hwn yn gwestiwn dewisol.
- 54. Gallai ymatebwyr raddio eu bodlonrwydd o 1 (anfodlon iawn) i 5 (bodlon iawn).
- 55. Dewisodd 11 o'r ymatebwyr (3 y cant) beidio ag ateb y cwestiwn.
- 56. Y sgôr gymedrig gyffredinol oedd 4.5. Y sgôr ganolrifol gyffredinol oedd 5.


### Canlyniadau Cyffredinol





## Yn ôl pwyllgor (cymedr)



## Yn ôl y math o weithgaredd (cymedr)



### Cymhariaeth â'r peilot cyntaf




## Bodlonrwydd gyda'r profiad cyffredinol


Cwestiwn: Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi ar y profiad o gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor?

- 57. Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol.
- 58. Gallai ymatebwyr raddio eu bodlonrwydd o 1 (anfodlon iawn) i 5 (bodlon iawn).
- 59. Y sgôr gyfnewidgydd cyffredinol oedd 4.5. Y sgôr ganolrifol gyffredinol oedd 5.


### Canlyniadau Cyffredinol





## Yn ôl pwyllgor (cymedr)



## Yn ôl y math o weithgaredd (cymedr)



## Cymhariaeth â'r peilot cyntaf






## Tebygolrwydd o gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor eto


Cwestiwn: Pa mor debygol neu annhebygol fydddech chi o gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor eto pe baech yn cael cyfle?

- 60. Roedd hwn yn gwestiwn gofynnol.
- 61. Gallai ymatebwyr raddio'r tebygolrwydd o 1 (annhebygol iawn) i 5 (tebygol iawn).
- 62. Y sgôr gyfmedrig gyffredinol oedd 4.8. Y sgôr ganolrifol gyffredinol oedd 5.


### Canlyniadau Cyffredinol





## Yn ôl pwyllgor (cymedr)



## Yn ôl y math o weithgaredd (cymedr)



### Cymhariaeth â'r peilot cyntaf



## Sylwadau

Cwestiwn: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau o ran sut y gallem fod wedi gwneud eich profiad yn well neu'n fwy cyfforddus, neu sut y gallem wneud yn well yn y dyfodol?

Meddylwch a fyddai modd eich adnabod yn ôl unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei rhoi yn eich ymateb, er enghraifft eich enw neu eich lleoliad daearyddol.

Efallai yr hoffech gyfeirio at ein polisi preifatrwydd i gael gwybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth a gyflwynir gennych.

**63.** Roedd hwn yn flwch testun rhydd, dewisol.

**64.** Rhoddodd cyfanswm o 82 o ymatebwyr (22 y cant) sylwadau. Rhoddir crynodeb o'r themâu allweddol isod. Rhoddir testun llawn y sylwadau a gafwyd yn yr atodiad.

## Paratoi i roi tystiolaeth

---

**65.** O ran paratoi tystiolaeth ysgrifenedig cyn y sesiwn, dywedodd tri ymatebwr fod yr amser a roddwyd iddynt yn rhy fyr:

*“The two-week window to submit evidence was extraordinarily short and meant that other planned work had to be dropped as we rushed to complete our written evidence. Other organisations might have struggled even more with this timeframe and then there is a worry that voices are excluded.”*

*“On this occasion there was limited notice period for putting together and submitting evidence to the committee, a longer lead in would improve the extent and quality of the submission.”*

**66.** Gwnaeth un ymatebwr dynnu sylw at hygyrchedd yr ymgynghoriad yr oedd wedi ymateb iddo, gan nodi: “Submitting evidence online is not the most accessible format for people with disabilities (poor fine motor skills, sight loss etc)”. Dywedodd un arall nad oedd digon o gyhoeddusrwydd ynghylch yr ymgynghoriad.

**67.** Roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a gawsant cyn y sesiwn, yn enwedig y rhai a oedd yn rhoi tystiolaeth am y tro cyntaf. Fodd bynnag, dywedodd nifer o ymatebwyr y byddent wedi elwa o gael rhagor o wybodaeth gan gynnwys: dogfennau polisi ehangach; agenda a fformat y cyfarfod a gwybodaeth am siaradwyr eraill ar y panel. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Receiving the agenda with confirmation earlier. Now it was only a few days (2 or 3) in advance."*

*"As a first timer it would have been good to receive some information on what to expect."*

*"There was very little information given in advance of what specifically the MSs required advice on, which made it very difficult to prepare."*

*"There were clear formalities around presenting to the Committee that came as a surprise and rather late in the day - would have been preferable to know in advance."*

**68.** Tynnodd sawl ymatebwr sylw at ba mor fuddiol oedd cael y cwestiynau (neu o leiaf meysydd/pynciau'r cwestiynau) cyn y sesiwn, gyda rhai yn egluro y byddai hyn wedi eu helpu i baratoi a rhoi atebion mwy cadarn:

*"It would have been helpful to have questions (or at least specific topics) in advance of the oral evidence session as it would have enabled clearer preparation and the best use of time."*

*"Some questions in advance would have helped, so that a more informed view and response could have been given."*

## **Y profiad o roi tystiolaeth**

---

**69.** Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at eu profiad o roi tystiolaeth yn rhithwir. Cafodd tri ohonynt brofiad cadarnhaol o gymryd rhan ar-lein, gan nodi y bu'n ddefnyddiol cynnal 'prawf' ymlaen llaw:

*“I would just like to note how comfortable the whole process made me feel. From a 'test link' the day before, being welcomed on logging in and welcomed again just before going live. It put any nerves about the process at ease, so that I could focus on the evidence. Thank you.”*

**70.** Soniodd un ymatebwr yn gadarnhaol am hygyrchedd rhoi tystiolaeth a dywedodd fod y Pwyllgor wedi gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau ei fod yn cael profiad cadarnhaol iawn wrth gyfrannu.

**71.** Fodd bynnag, dywedodd un fod diffyg paratoi cyn iddo fynd i mewn i'r cyfarfod a dywedodd un arall ei fod yn cael trafferth clywed rhai o'r cwestiynau. Dywedodd dau ymatebwr eu bod wedi cael anawsterau wrth ddefnyddio offer cyfieithu ar y pryd.

**72.** Soniodd nifer o ymatebwyr am faterion yn ymwneud ag amseriad y sesiwn, yn enwedig nifer y cwestiynau. Dywedwyd bod y sesiwn yn rhy fyr, ac o ganlyniad i hynny nid oedd gan bawb yr amser i ateb pob cwestiwn a chymryd rhan yn llawn. Dywedodd un y byddai cyfnod o ddwy awr wedi caniatáu iddynt drafod eu hachos mewn modd mwy amserol ac ystyrlon ac yn gliriach.

**73.** Wrth fyfyrto ar natur y cwestiynau a ofynnwyd, dywedodd un ymatebwr fod rhai cwestiynau yn wahanol iawn i gwestiynau gwreiddiol yr ymchwiliad, a chyfeiriodd un arall at ba mor addas oedd y cwestiynau, gan nodi:

*“My [name of specific team] team had communicated with Welsh Parliament to make sure they were aware I could only speak to some questions given the nature of my organisation's remit, but I was still asked about these in the session.”*

### **Ymgysylltu ag aelodau'r Pwyllgor a staff**

---

**74.** Roedd profiadau ymatebwyr o ymgysylltu â staff Pwyllgorau yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r Pwyllgorau yn cael canmoliaeth am y cymorth a'r cyngor a gynigiwyd. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*“The clerk and support staff were extremely helpful throughout”.*  
*[Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg]*

*“The Committee support staff are extremely helpful, and make it very easy to work with them.” [Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith]*

*“Well organised. The pre-inquiry briefing was very helpful to test equipment and ease nerves.” [Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol]*

*“It was a very positive experience. Committee staff were excellent and very helpful.” [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig]*

*“It was my first time giving evidence. The support staff were wonderful. I also thought the questions posed by the members of the committee were incisive and fair.” [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol]*

*“Excellent support from committee clerks” [Y Pwyllgor Cyllid]*

*“Committee team have always been highly professional and respond quickly to questions I have had.” [Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol]*

*“Always appreciate the good communication and flexibility from the clerk / deputy clerk” [Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai]*

*“I have been generally impressed by the clarity and standard of information provided, and by the manner and approach of those officers with whom I have interacted. It merits positive feedback.” [Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Cyhoeddus]*

**75.** Cafwyd llai o sylwadau yn ymwneud ag ymgysylltu ag Aelodau. Dywedodd un ymatebwr ei fod yn ystyried y cyfle i roi tystiolaeth yn brofiad gwerthfawr i allu ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r pwyllgor, a dywedodd un arall fod y Cadeirydd wedi bod yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Dywedodd un:



*“Thank you to committee members for taking time to talk to the young person I was accompanying on the visit and listening to her, taking interest in her work”.*

**76.** Fodd bynnag, roedd un yn meddwl y gallai Aelodau fod wedi paratoi eu hunain yn well, a dywedodd un arall na chafodd gyfle i wneud sylw, gan ychwanegu:

*“it was confrontational questioning with any answers shut down by the relevant MS if those answers were trying to make a point relevant to but not directly in answer to the meandering initial question.”*

### **Ar ôl rhoi tystiolaeth**

---

